Rhif 4

# *Yr Hen Wlad*

Awst 1994

## At Gymry Patagonia

**Cyfarchion efo rhifyn arall o *Yr Hen Wlad*. Da oedd cael ymateb i'r cwestiynau. Yn eu plith yr oedd Mable D. Hughes, Dolavon; May Ceiriog Hughes, Trelew; Luned Gonzalez, Gaiman; Aira Hughes, Esquel, a Gweneira Davies de Quevedo, Trelew. Yr ateb cywir cyntaf o'r het oedd eiddo Aira Hughes. Cawsom hefyd air o ddiolch gan Gwilym Roberts ac yn falch iawn o glywed fod Siôn Dafis, wrth ddilyn ei waith, yn cynnig copiau o'r *Hen Wlad*. Dywedai Gweneira mai 129 mlynedd i'r diwrnod yr anfonai atom yr oedd y Cymry yn cychwyn o Lerpwl am yna.**

**Sylwch ar ein cyfeiriad newydd erbyn hyn, sef:** *Guto a Marian Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU.*

# *TAIR MIL*

Ymwelodd rhagor ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Nedd a'r Cyffiniau, nag a ymwelodd â Llanelwedd y llynedd: 135,000 o bobol dros wyth niwrnod o gymharu â 132,000 bryd hynny.

# ENILLWYR YR EISTEDDFOD

Enillwyd y goron am ddilyniant o gerddi gan y Dr. Gerwyn Williams o Landwrog ger Caernarfon. Mae'r Dr. Williams yn ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor.

Enillydd y Fedal Ryddiaith (am yr eildro) am nofel oedd Robin Llywelyn o Minffordd ger Penrhyndeudraeth. Ef yw un o Gyfarwyddwyr Porthmeirion a gynlluniwyd - ac a adnabyddir fel Pentref Eidalaidd - gan ei daid, y Pensaer Clough Williams Ellis.

Enillwyd y Gadair am awdl ar y testun *Chwyldro* gan Emyr Lewis o Graig-cefn-parc ger Abertawe. Cyfreithiwr yw'r Prifardd newydd ond gwelwn ei fod yn hannu o deuluoedd llengar adnabyddus gan mai ei hen ewythr oedd y diweddar T.H. Parry-Williams.

Eirug Wyn o'r Groeslon ger Caernarfon a enillodd y wobr o fil o bunnau am ysgrifennu nofel.

# *SENEDD?*

Mae'r Blaid Lafur wedi addo cefnogaeth i Fforwm Cymru ac Ewrop, sy'n cael ei weld fel cam cyntaf Cymru tuag at ffurf o hunan-lywodraeth.

Mae'r Fforwm wedi ei lansio gan Lafur law yn llaw â'r Cynghorau Sir a Dosbarth.

Bydd yn cynnwys Aelodau Seneddol ac aelodau o Senedd Ewrop, ynghyd â chynrychiolwyr llywodraeth leol.

Ystyrir y lansio yn ddigwyddiad pwysig yn hanes y genedl.

# Pêl-droed

Mae Peter Hughes Griffiths, Caerfyrddin - Cadeirydd newydd Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru - yn bwriadu anfon at bob Ysgol Gyfun yng Nghymru yn gofyn iddynt hwyluso'r ffordd i'r plant wella eu sgiliau pêl-droed.

Mae'n apelio ar i'r ysgolion fynd ati i chwarae gemau pump neu chwech bob ochr er mwyn datblygu eu galluoedd yn gynnar. "Mae gormod o ysgolion "un gêm" o gwmpas, meddai "a rhaid sicrhau fod eu disgyblion yn cael cyfle mewn amrywiol chwaraeon ac mae pêl-droed yn un ohonynt."

---

Hysbys y dengys y dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn.
(Tudur Aled)

# "Ricordi Felici"

**Atgofion Hapus oedd ystyr y ddau air uchod a gaed ar y dorch flodau a welwyd ar arch Caitlin Thomas a gludwyd o Sicily i Fynwent Llanacharn ar Awst 10.**

Guiseppe Fazio, o'r ynys honno - y bu Caitlin yn cyd-fyw ag ef am yn agos i 40 mlynedd - oedd piau'r geiriau, ond nid oedd ef yn ddigon cryf ei iechyd i ddod i'r angladd. 'Roedd eu mab Guiseppe Francesco Fazio, sy'n 30 oed, yno fodd bynnag ynghyd â'r ddau fab ac un ferch o briodas Caitlin â Dylan Thomas.

'Roedd Caitlin Thomas yn 80 oed erbyn hyn ac fe'i claddwyd ym medd ei phriod a fuasai farw, fel y cofiwn, yn ystod ei daith yn America yn 1953 ac y cludwyd ei gorff yntau i'w gladdu yn Llanacharn, Sir Gaerfyrddin.

## TYNNU YMA I LAWR A CHODI DRAW

**Mae gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru gynllun i gau 300 o gapeli'r enwad fel lleoedd i addoli a'u troi yn 3,000 o dai a fflatiau.**

Dyna oedd neges y Parchedig Dafydd Owen yn ystod mis Gorffennaf gan nodi bod 979 o gapeli'r enwad yn wynebu cael eu dymchwel neu eu haddasu yn dai. Dywedodd ei fod am weld rhagor o gydweithredu rhwng yr enwadau trwy iddynt rannu adeiladau a hyd yn oed weinidogion.

"Y nod," meddai, "fydd sicrhau bod o leiaf un addoldy ym mhob pentref i ba bynnag enwad y bo'n perthyn." Os na wneir hynny ofna weld pentrefi heb unman o gwbl i addoli.

Mae'r gwaith addasu wedi cychwyn eisoes a safle yr hen gapel Bethel ym Mhontyclun wedi ei droi yn wyth o fflatiau ac ystafell i'r eglwys i addoli.

Mae capel Peniel yn Llan Ffestiniog yn un arall sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei addasu gan mai 25 o aelodau sydd yno erbyn hyn a hynny mewn adeilad a godwyd ar gyfer 800 o bobol.

---

*Pwy ni chwardd pan fo hardd haf? (Dafydd ap Gwilym)*

# *I'R GOFOD*

Joe Tanner sy'n 45 oed yw'r gŵr hynaf erioed i gael ei ddewis yn Astronaut ac ef hefyd yw'r Cymro cyntaf.

Bu ei daid yn brifathro ysgol fach Llanddewibrefi ac mae'r ŵyr yn medru rhywfaint o Gymraeg. Ei fam yw Megan Tanner sy'n un o selogion Cymdeithas Cymry America.

Mae Joe Tanner ar hyn o bryd yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y daith ym mis Hydref a dangoswyd peth o'r ymarferion ar y rhaglen Gymraeg *Heno* ar S4C.

# DROSODD a THROSODD

**Mae cwpwl o Fôn wedi mynd un cam ymhellach na Richard Burton a Liz Taylor - drwy briodi'i gilydd am y TRYDYDD tro!**

Priododd Jean Roberts, 42, â'i chyn-ŵr Huw, yn Swyddfa Gofrestru Llangefni ddydd Sadwrn diwethaf - dros 18 mlynedd ar ôl eu priodas gyntaf.

Ond mae'r cwpwl hapus sy'n byw yn 37 Isgraig, Llangefni, yn mynnu mai am oes fydd hi y tro yma ar ôl eu trydydd uniad mewn glân briodas.

Priododd y cwpwl gyntaf yn 1976 cyn cael ysgariad ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Bu ail briodas yn 1986 tan yr ail ysgariad yn 1992 - ac mae'r ddau sydd bellach yn briod unwaith eto yn dweud eu bod mewn cariad fwy nag erioed o'r blaen.

.....Credir mai dyma'r tro cyntaf i Swyddfa Cofrestru Llangefni briodi unrhyw gwpwl dair gwaith.

Eglurodd Huw fod y ddau wedi bod yn anghytuno digon yn y gorffennol a bob tro mae ysgariad wedi bod, mae wedi gadael y tŷ ond wedi mynd â'i bres a'i ddillad efo fo.

Dywed mai Jean sydd bob tro yn ei ffonio fo ac yn y diwedd mae pethau'n dilyn i'r briodas nesaf.

*O'r Herald, Gorffennaf 9 1994*

# Llwyfan i'r Pabyddion

**Yr Esgob Mullins, sy'n Wyddel, ond wedi dysgu Cymraeg, oedd yn traddodi'r bregeth fore Sul o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Hwn oedd y tro cyntaf erioed i Babydd gael gwneud hynny.**

Gan fod eleni'n cael ei nodi fel blwyddyn y teulu 'roedd wedi llunio ei bregeth ar y nodyn hwnnw gan bwysleisio'r pwysigrwydd fod y ffydd Gristnogol yn sail i bob teulu. 'Roedd gweddill y gwasanaeth - dan ofal ieuenctid bro'r Eisteddfod - yn dilyn yr un patrwm.

Er iddo gael ei fagu yn Iwerddon mae'r Esgob Mullins wedi graddio yn y Gymraeg, a hynny ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, ar ddiwedd y chwedegau.

# OERAIDD

## - GANOL HAF

**Gwan oedd y gefnogaeth eleni i ddathlu'r 25 mlynedd a aeth heibio er pan gafodd y Tywysog Siarl (mab y Frenhines) ei arwisgo yng Nghastell Caernarfon.**

Chwech yn unig o Gynghorwyr y dref a ymunodd yn y dathlu ac 'roedd amryw o aelodau Côr Meibion Caernarfon hefyd yn absennol.

'Roedd, er hynny, tua 1,200 o bobol - oedd yn cynrychioli gwahanol fudiadau ac elusennau - oddi mewn i furiau'r castell ar gyfer yr arddwest.

---

*Bu gennyf ffrind a cheiniog hefyd,*
*Ac i'm ffrind mi rois ei benthyg.*
*Pan eis i nôl fy ngheiniog adre,*
*Collais i fy ffrind a hithe.*

*(Hen Bennill)*

# Y Cneifiwr Cyflymaf

Llwyddodd Wyn Jones o Lanfaircaereinion i gneifio 654 o famogiaid mewn naw awr a dod yn bencampwr cneifwyr Prydain.

'Roedd wedi bod yn ymarfer yn galed am tua thri mis gan roi'r gorau i yfed a smocio.

# BLODYN MELYN

**Y mae camp garddwr o Gymru wedi achosi cymaint o gynnwrf nes bo cwmni o'r Almaen wedi camu i mewn i ddatblygu ei ddarganfyddiad.**

**Fel yr adroddwyd yn *Y Cymro* ddwy flynedd yn ôl tyfodd Jack Botham yr hyn oedd y *mynawyd y bugail (geranium)* melyn cyntaf yn y byd.**

Y mae Jack, 77, yn dyfwr brwd o fynawyd y bugail yn ei dy gwydr bychan yn Nhreffynnon, Clwyd, a daeth y blodyn melyn i'r amlwg yn dilyn un o'i arbrofion yno.

Achosodd gymaint o gynnwrf ym myd garddio nes y prynwyd y planhigion a'r hadau i gyd gan feithrinfa o'r Almaen sydd wedi bod yn profi'r planhigyn newydd yn drylwyr ers hynny er mwyn ei ddatblygu ymhellach.

Yn awr y mae *Botham's Surprise* ar werth am y tro cyntaf gan gwmni Vernon sy'n brif werthwyr mynawyd y bugail yng ngwledydd Prydain.

"Yr ydym wrth ein boddau. Y mae hwn y planhigyn mwyaf hirddisgwyledig a chyffrous ers y Paul Crambpel sgarlad ym 1893. Y mae hwn yn ddigwyddiad gwirioneddol hanesyddol yn hanes yr ardd," meddai Philip James o gwmni Vernon...y mae iddo betalau o felyn hufenog ac y mae'n blodeuo gydol y tymor.

*O'r Cymro, Gorffennaf 20 1994*

# Ffarwel i'r Syr

Mae Syr Wyn Roberts, yr Aelod Seneddol dros Ddyffryn Conwy, ac Is-Ysgrifennydd Gwladol yn y Swyddfa Gymreig ers pymtheng mlynedd, wedi ymddiswyddo.

Ef oedd y gweinidog a fu hiraf yn yr un adran o'r Llywodraeth ers yn agos i ganrif. Dywedodd mewn sgwrs ei fod yn ystyried ei gyfraniad yn llywio'r Ddeddf Iaith trwy'r Senedd yn un o'i gyfraniadau pwysicaf tra bu yn Weinidog.

Ei olynydd yn y swydd yw Rod Richards, yr Aelod Toriaidd presennol dros ran o Glwyd a fu cyn hyn yn ddarllenydd newyddion gyda'r BBC yng Nghaerdydd.

# NEWYDDION I DDYSGWYR

**Y mae'r *Cymro* ac adran newyddion y BBC wedi ymuno â'i gilydd i gynnig gwasanaeth newydd sbon i ddysgwyr Cymraeg.**

Bydd Radio Cymru a'r *Cymro* yn gweithio law yn llaw i baratoi newyddion ar yr awyr ac mewn print ar gyfer y dysgwyr.

**Ar y radio:** Bydd Gwasanaeth Newyddion Radio Cymru yn darlledu bwletin bob gyda'r nos o ddydd Llun i ddydd Gwener wedi ei anelu at y bobol hynny sy'n dysgu Cymraeg.

**Yn *Y Cymro:*** Bob wythnos, bydd detholiad o'r bwletinau hynny yn cael eu cyhoeddi i ddysgwyr a darllenwyr eraill gael pori drwyddynt wrth eu pwysau.

Wrth groesawu'r fenter dywedodd Glyn Evans, golygydd *Y Cymro,* ei fod yn ystyried y datblygiad yn wasanaeth pwysig a diddorol nid yn unig i ddysgwyr ond i bawb sy'n darllen *Y Cymro.*

# VALMAI JONES

Wedi cyfnod o lesgedd bu farw'r Fns. Valmai Jones.'Roedd wedi cartrefu yn ardal Wrecsam ar ôl ei phriodas â'r Bonwr Harold Jones yn 1955. Bu'n weithgar dros ben am gyfnod maith fel Cadeirydd Cymdeithas Cymry Ariannin. Ym Mehefin 1985 cyhoeddodd ei *Hatgofion am Y Wladfa* a chaed hanes Dathlu'r Canmlwyddiant ganddi yn ddiweddarach yn y llyfryn *Cymdeithas Cymry Ariannin 1939-1989,* y ddau yn dangos pa mor weithgar a thrylwyr ydoedd.

Cydymdeimlwn â'i chwaer, Y Fns. Arianina Roberts sydd yma yng Nghymru ac â gweddill y teulu yn Ariannin.

# ELI BELLA

Cysylltu ag Ella Jones yn Llanrhuddlad, Ynys Môn, pia hi os ydym am wella o'r *Eryr* gan fod ganddi botiau bychain sy'n llawn o eli at yr anghaffael. Mae ganddi stôr dda ohonynt ganol haf gan ei bod yn haws dod o hyd i'r deiliach at ei wneud yr adeg hon o'r flwyddyn.

Gan ei mam y dysgodd Ella Jones y gyfrinach o'i baratoi ac mae'r cyfarwyddiadau wedi eu trosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall ers 150 o flynyddoedd a hithau eisoes wedi rhoi'r manylion i'w thair merch.

# DIOLCH

Grŵp y *North Wales Weekly News* oedd perchenogion *Yr Herald Cymraeg* a *Herald Môn* ers tro byd bellach ond maent erbyn hyn wedi cyfuno'r ddau bapur ac fe'i hadwaenir fel *Yr Herald.*

Huw Prys Jones sy'n hannu o'r Bala yw'r golygydd presennol ac mae ein diolch yn ddyledus iddo am ganiatau i ni ddyfynnu o'r *Herald* ar gyfer *Yr Hen Wlad.*

Diolchwn hefyd i Glyn Evans, golygydd *Y Cymro* am gael gwneud hynny yn gyson o'r papur hwnnw.

# AGOR TWNNEL

Un o'r englynwyr mwyaf adnabyddus yn y dau a'r tridegau oedd Gwilym Deudraeth. *"Chydig ar Gof a Chadw* yw enw'r gyfrol o'i waith ac fe welir bod cynghanedd hyd yn oed yn yr enw hwnnw. Fe'i cofir yn bennaf fel awdur englynion digri neu ysgafn.

Yn Lerpwl y bu'n byw am y rhan helaethaf o'i oes ac yno yr oedd pan agorwyd y twnnel dan afon *Mersey*.

Heddiw, pan agorir y twnnel o dan y Sianel rhwng Lloegr a Ffrainc gan y Frenhines Elizabeth a'r Arlywydd Francois Mitterand o Ffrainc, ac Arglwydd Faer Caerdydd ymhlith y gwahoddedigion, mae'n deg inni gofio am englyn Gwilym Deudraeth i'r twnnel rhwng Penbedw a Lerpwl.

Twnnel Mersi

Er dir lôn, er daer oleuni - yn saff
Ac yn sych mewn tacsi,
Mae arswyd afon Mersi
Eto 'run faint arnaf fi!

# CAU PWLL

**Er cymaint fu'r protestio ac i'r Aelod Seneddol Ann Clwyd ddangos ei chefnogaeth i'r glowyr trwy dreulio 27 awr dan y ddaear ym Mhwll y Tŵr yn Hirwaun,Cwm Cynon, mae'n wybyddus, erbyn hyn, fod y pwll glo olaf yn Ne Cymru wedi ei gau.**

Daeth peth cysur, fodd bynnag, i'r glowyr yno ac i ardaloedd glofaol eraill pan glywsom fod Senedd Ewrop, dan gynllun RECHAR II wedi cyhoeddi y daw ugain miliwn o bunnau mewn grantiau (dros gyfnod o dair blynedd) i Gymru i sbarduno a chreu gwaith trwy osod ffyrdd newydd a gwella'r amgylchedd.

# J. GLYN DAVIES

**Un o hoffterau Yr Athro J. Glyn Davies (brawd yr Heddychwr George M. Ll. Davies) oedd llunio cerddi a gofir gan genedlaethau fel** ***Cerddi Robin Goch, Cerddi Porthdinllaen,*** **a'i gasgliad olaf fel** ***Cerddi Edern.***

Hoffai hefyd ymhél â llenyddiaeth Denmarc ac aeth ati i gyfieithu gwaith Jeppe Aakjaer - y rhan fwyaf ohonynt i'r Saesneg.

Ymhlith y deg a gyfieithiwyd i'r Gymraeg y mae'r gerdd fechan dangnefeddus hon a gyhoeddwyd gan ei weddw yn 1962 yn y gyfrol *Songs of the Heather,* a'r is-deitl Cymraeg: *Cerddi'r Grug.*

## F'Enaid Taw

| m : m ı r : d | f : f ı m : - |
F'e - naid taw, mae'r haul ar fynd
| r : m ı f : s | f : - ı m : - |
dros y grug i'w gae - re,
| s : s ı s : s | l : s ı m : - |
ga - ran we - di mynd i'w nyth,
| d : r ı m : f | r : - ı d : - |
gwa - rtheg yn troi a - dre'.
| m : m ı m : - .m | s : - ı f : - | m : - ı - : - |
F'e -naid taw, mae'r haul ar fynd.

Tawel ar y ffordd drwy'r grug,
tawel ar y llwybyr;
dim ond sŵn un cacwn brith
ar ei ffordd i'w grwybyr.
F'enaid taw, mae'r haul ar fynd.

Gwib cornchwiglen unig lef
uwchben pyllau mawnog,
cyn rhoi'i phen o dan ei phlu
yn ei gwely brwynog.
F'enaid taw, mae'r haul ar fynd.

Mae ffenestri pell ar dân
acw draw'n y dwyrain;
ar y rhos mae gwrid yr haul
yn y pyllau bychain.
F'enaid taw, mae'r haul ar fynd.

# Yng Nghlust y Teleffôn

Clywsom fod:

- Y Fns. Valmai Jones wedi bod yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, am yr eildro eleni, ond 'rydym yn falch o ddeall ei bod yn gwella.
- Y Fns. Arianina Roberts, ei chwaer, ddim wedi bod yn dda ond deallwn ei bod hithau'n gwella.
- Cangen Môn ac Arfon o Gymdeithas Cymry Ariannin wedi trefnu noson ar Fai 26 yng nghwmni'r aelodau sydd wedi dychwelyd o'r Wladfa yn ddiweddar, yn cynnwys Cathrin Williams, John Parry (y beiciwr) a Clive James.
- Cymdeithas Cymry Ariannin wedi derbyn cyfraniad gan y Cyngor Prydeinig am y tro cyntaf er 1982.
- Y Parchedig Arthur Meirion Roberts a Morfudd wedi rhyfeddu at y fath groeso twymgalon a'r caredigrwydd a gawsant yna ac at ffyddlondeb pobl y Wladfa i'r Capel. Testun edmygedd di-ben-draw iddynt bellach fydd cyfraniad amhrisiadwy y nifer fechan o Gymry i hanes a datblygiad Ariannin.
  Bydd y plac a gludodd Mr. Roberts i gofio Edwin Cynrig Roberts yn cael ei osod ym mynwent y Santes Ann, Bethesda, ar y chweched o fis Mai.
- Bu farw Enid Hughes Cadfan, gweddw'r Parchedig Nefydd Hughes Cadfan, yn Nhrefnant, Clwyd. Mae gan Margaret Wyn Roberts, Caernarfon, erthygl dair colofn yn *Eco'r Wyddfa, Mai 1994,* am y Parchedig Nefydd Hughes Cadfan a'i gysylltiadau â'r Wladfa.

---

Cymru

O wlad fach, cofleidiad hi, - angoraf
Long fy nghariad wrthi;
Boed i foroedd byd ferwi,
Nefoedd o'i mewn fydd i mi.

*Berw*

# ? ? ?

Chwiliwch am atebion i'r canlynol yn y Papur hwn. Os anfonwch atom i'r cyfeiriad a geir ar y tudalen cyntaf erbyn Gorffennaf 18 1994 rhoir eich ymgais mewn het a'r sawl a anfono yr atebion cywir cyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o *Yr Hen Wlad.*

1. Pwy yw Archesgob Cymru?
2. Ym mha bapur y cafwyd llun o Lyn?
3. Pwy oedd tad y pum ficer?
4. Ym mha wlad arall heblaw Cymru a'r Wladfa y darlledir rhaglenni Cymraeg?
5. Enwir 9 bardd yn y Papur hwn. Pwy ydynt?
6. Enwch Aelod Seneddol.
7. Ym mhle mae cornchwiglen yn gwneud ei nyth?
8. Beth maen nhw'n ei dyfu yn Sir Benfro?
9. Pwy yw Arlywydd Ffrainc?
10. Pwy a ddechreuodd ei yrfa mewn pwll glo?
11. Pwy sy'n cael mynd i Vienna am hanner blwyddyn?
12. Faint o geir a gludir o Gaergybi i Iwerddon ar hyn o bryd?
13. Beth oedd swydd Yr Athro R. Tudur Jones?
14. Sut y teithir o Brydain i Ffrainc yn y dyfodol?

---

Bach pob dyn a dybio ei hun yn fawr.
Gorau trysor, daioni. *(Diarhebion)*